

LLAWYSGRIF LLGC PENIARTH 164

A PHARHAD CYFRAITH HYWEL YN YR OESOEDD CANOL DIWEDDAR¹

Mae'r testunau cyfraith Cymraeg at ei gilydd yn perthyn i dri grŵp: Llyfr Cyfnerth a gysylltir ag ardal y Gororau, Llyfr Blegywryd a gysylltir â'r Deheubarth a Llyfr Iorwerth a gysylltir â Gwynedd.² Amrywia cynnwys y llyfrau hyn ond mae strwythur ac arddull y llyfrau i gyd yn weddol debyg. Llawysgrif cyfraith yw Peniarth 164 (*H*) ond y mae'n gwbl unigryw o fewn traddodiad y llawysgrifau canoloesol Cymreig. Yn yr erthygl hon disgrifir y llawysgrif a'i gwneuthuriad gan awgrymu perthynas baleograffig â rhai llawysgrifau eraill. Dadansoddir perthynas cynnwys y testun â chorff testunau Cyfraith Hywel, ac yn olaf cynigir awgrymiadau ynglŷn â'r gŵr a'i hysgrifennodd.

Y llawysgrif

Llawysgrif yw hon na chafodd lawer o sylw yn y gorffennol. Yng ngeiriau Aneurin Owen: 'Being, unlike the generality of Welsh manuscripts, written on parchment of an inferior quality, and badly preserved, it is so far decayed as not to admit at present the possibility of any further reference.'³ A chyfeiriodd Daniel Huws at y llawysgrif fel 'that blackened, cut up and unstudied manuscript'.⁴ Mae rhannau helaeth o'r llawysgrif yn annarllenadwy oherwydd y staen bustl⁵ a roddwyd arni gan John Jones, Gellilyfdy (c.1585–1657/8).⁶ Yn ystod pedwardegau'r ganrif ddiwethaf ailrwywyd y llawysgrif gan y Llyfrgell Genedlaethol. Torrwyd ei dalennau yn ddalennau unigol fel nad oes modd gweld na'r plygion na'r strwythur gwreiddiol. Priodolwyd *H* i'r unfed ganrif ar bymtheg gan Aneurin Owen ac i ddechrau'r bymthegfed ganrif gan Gwenogvryn Evans.⁷ Bellach, ar sail balaeograffyddol, dyddiwyd *H* i ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg gan Daniel Huws.⁸

¹ Yr wyf yn ddiolchgar i Daniel Huws ac Ann Parry Owen am eu sylwadau ar y gwaith. Seiliwyd yr erthygl ar fy nhraethawd ymchwil, Gwenno Angharad Elias, 'Golygiad ac Astudiaeth Destunol o'r Llyfr Cyfraith yn LLGC, Llawysgrif Peniarth 164 (*H*), ynghyd â'r Coptiau Ohoni yn Llawysgrifau Peniarth 278 a Llanstephan 121', Traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru, 2007, a mawr yw fy nyled i'r Athro Huw Pryce a Morfydd E. Owen, cyfarwyddwyr y traethawd. Trafodwyd y llawysgrif hefyd yn Sara Elin Roberts, 'Law Texts and their Sources in Late Medieval Wales: the Case of *H* and Tails of Other Legal Manuscripts', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 24 (2008), 41–59.

² A. W. Wade Evans (gol.), *Welsh Medieval Law* (Oxford, 1909); Stephen J. Williams a J. Enoch Powell (goln), *Cyfreithiau Hywel Dda yn ôl Llyfr Blegywryd (dull Dyfed)* (Caerdydd, 1942); Aled Rhys Wiliam (gol.), *Llyfr Iorwerth* (Cardiff, 1960).

³ Aneurin Owen (gol.), *Ancient Laws and Institutes of Wales* (London, 1841), I, t. xxix.

⁴ Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff, 2000).

⁵ Cf. L. C. Hector, *The Handwriting of English Documents*, ail argraffiad (London, 1966), tt. 19–20, am y defnydd o fustl mewn inc: 'The galls are the small spherical swellings, often called oak-apples, produced on the twigs of the oak-tree by the activities of the parasitic gall-fly . . .' O frwsio trwyth o fustl (a fyddai'n ddi-liw) dros inc a oedd wedi gwelwri deuai'r inc yn ddu eto, ond effaith hirdymor y driniaeth hon fyddai troi'r cwbl yn ddu.

⁶ Gw. Nesta Lloyd, 'A History of Welsh Scholarship in the First Half of the Seventeenth Century, with Special Reference to the Writings of John Jones, Gellilyfdy', Traethawd D.Phil. Prifysgol Rhydychen, 1970; P. Smith a M. Bevan-Evans, 'A Few Reflections on Gellilyfdy and Renaissance in North-Eastern Wales', *Flintshire Historical Society Publications*, 24 (1970), 19–43. Gw. hefyd Samuel Jones, 'The Lives and Labours of John Jones and Robert Vaughan, Scribes of the Sixteenth and Seventeenth Centuries', Traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1926.

⁷ *Ancient Laws*, I, t. xxix; J. Gwenogvryn Evans, *Report on Manuscripts in the Welsh Language* (London, 1898–1910), II, t. 956; gw. hefyd Timothy Lewis, 'A Bibliography of the Laws of Hywel Dda', *Aberystwyth Studies*, 10 (1928), 164; *Llyfr Iorwerth*, t. xx.

⁸ Huws, *Medieval Welsh Manuscripts*, tt. 46, 60.

Rywbyrd cyn 1619 gwyddom i *H* gael ei rhwymo â llawysgrif LIGC Peniarth 29 (Y Llyfr Du o'r Waun), sy'n llawysgrif o ganol y drydedd ganrif ar ddeg, ac iddi aros felly tan ar ôl 1869.⁹ Adysgrifwyd *H* a darn o'r Llyfr Du o'r Waun tua 1619 gan John Jones, Gellilyfdy yn llawysgrif LIGC Llanstephan 121. Nid yw adysgrifiad John Jones yn dilyn trefn wreiddiol *H*. Er hynny, nodir cyfeiriadau at rifau ffolia *H* ar ymyl y dalennau. Copiwyd cynnwys Llanstephan 121 gan Robert Vaughan yn llawysgrif LIGC Peniarth 278. Defnyddiwyd copi Robert Vaughan gan Aneurin Owen yn sail i Lyfr XIV ei *Ancient Laws and Institutes of Wales* lle yr atgynhyrchwyd darnau helaeth o'r testun ond nid y cyfan. Ceir copi arall anghyflawn o Llanstephan 121 yn llaw Moses Williams yn llawysgrif LIGC Llanstephan 73.¹⁰

Disgrifiad o'r llawysgrif

Ysgrifennwyd y testun ar 81 ffolio, neu 162 tudalen, o femrwn gwael. Mae pedwar daleniad ar y llawysgrif. Lleolir rhifau'r daleniad cynharaf yng nghornel uchaf chwith rhai tudalennau *verso* mewn rhifau Rhufeinig.¹¹ Ceir daleniad diweddarach yng nghornel dde uchaf y tudalennau *recto* sy'n dechrau ar rif 52. Efallai bod y rhifo hwn yn llaw John Jones, Gellilyfdy: copiodd John Jones ddarn o'r Llyfr Du o'r Waun (ff. 1–51) cyn dechrau copio testun *H*. Rhifwyd y tudalennau unigol gan J. Gwenogvryn Evans yng nghanol y tudalennau *recto* (1–162). Ailadroddir y rhifau hyn ar y sribynnau y cysylltir y dalennau â hwy (y 'guards') yn rhwymiad presennol Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yng nghornel chwith isaf y tudalennau *recto* dechreuir rhifo'r dalennau o'r rhif 1 hyd at 81. Mae nifer o rwygiadau a mân dyllau yn y memrwn; gwelir y mwyaf o'r rhain ar tt. 81–2, gyda'r ysgrifen yn llifo bob ochr i'r twll.¹² Amrywia maint y dalennau gyda'r hyd yn amrywio rhwng 152 mm a 174 mm tra bo'r lled yn amrywio rhwng 106 mm a 135 mm. Nid yw dalennau'r llawysgrif wedi eu tocio ac felly fe ymddengys yn flêr. Ceir darn bychan o femrwn ar dd. 57–8 nad ydyw wedi ei rifo yn y ffoliad sy'n mesur 63 mm o hyd a 83 mm o led.¹³ Mae rhai dalennau yn cynnwys dau ddarn o femrwn wedi eu pwytho ynghyd, e.e. tt. 63–4, 113–14, 147–8, 153–4. Mae'r llawysgrifen yn llenwi bron pob modfedd o'r tudalennau gan adael nemor ddim ymyl iddynt. Amrywia'r gofod sydd rhwng y llinellau o dudalen i dudalen. Ymddengys rhai tudalennau yn llawnach na'i gilydd gyda nifer y llinellau ar bob tudalen yn amrywio rhwng 23 a 45, ac eithrio tt. 57–8 sy'n cynnwys oddeutu 14 llinell. Ar brydiau gall yr ysgrifen fod yn gam gan ddilyn toriad y memrwn, e.e. tt. 3–4. Ni welir unrhyw linellu.

⁹ Daniel Huws, 'Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes' (teipysgrif heb ei chyhoeddi), t. 456.

¹⁰ Gw. Evans, *Report*, III, t. 558.

¹¹ Mae hyn yn eithriadol gan fod daleniad mewn llawysgrifau fel rheol i'w gweld ar yr ochr *recto*.

¹² Achoswyd y tyllau gan bryfed yn bwydo ar yr anifail. Efallai fod defnyddio memrwn o'r ansawdd hwn yn adlewyrchu cyfnod economaidd gwael, cf. Hector, *The Handwriting of English Documents*, t. 16.

¹³ Efallai fod hyn yn ategu theori J. Enoch Powell yn 'Floating sections in the laws of Howell', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 9 (1937–9), 28: 'Both the length of the floating sections themselves and the wide divergences of position show that they were originally added not in the margins of the pages, but on separate leaves of parchment. They would then be worked into the text by the next copier either at random or in the place where he thought them most relevant.' Cf. hefyd Huws, *Medieval Welsh Manuscripts*, tt. 31–2. Dichon fod y darn hwn yn dwyn ydwygrydd i'r arfer o ychwanegu dalennau (a elwir yn *scedula*, llu. *scedulae* – 'schedule(s)' yn Saesneg) i femrynau unigol mewn rholiau er mwyn cynnwys deunydd pellach.

Orgraff ac iaith

Mae *H* yn dangos orgraff arferol testunau Cymraeg Canol y bedwaredd ganrif ar ddeg. Fel rheol cynrychiolir [a] gan *a*. Cynrychiolir [e] ac [o] gan *e* ac *o*. Defnyddir *i* ac *y* am [i], e.e. *tir*, *nyt*. Cynrychiolir [ü] gan *u*, *v*, a *ö* yn ddiamed, e.e. *6n*, *un*, *kystadl6*, *talü*, *ame6o*, *dywedut*. Cynrychiolir [u] gan *w* ac *u*, e.e. *gwr*, *dyweit*, *thaulbwrđ*, *braut*. Defnyddir *y* i gynrychioli [ə].

Ar brydiau gwelir *aw* > *o* mewn sillafau terfynol: cf. *keinyawc* a *keinyoc*, *wryawc* a *wryoc*, *veichyawc* a *veichyoc*. Yn y cyfnod ar ôl c.1300 gwelwyd monoptoneiddio'r ddeusain [au] > *o* yn yr orgraff pryd nad oedd o dan bwysau'r acen ac mae nifer cynyddol o enghreifftiau o [au] > *o* mewn testunau ar hyd y bedwaredd ganrif ar ddeg.¹⁴ Defnyddir *eu* am [eü], e.e. *deu*, *gospau*, *deugeint*; ond fe ymddengys enghreifftiau o'r ffurf Cymraeg Diweddar *au* hefyd yn y testun, e.e. *aur*, *dau*. Cynrychiolir [ei] gan *ei*, e.e. *wreictra*, *kyfreithyawl*, *meibyon*. Datblygodd *ei* yn *ai* mewn geiriau unsill neu sillaf olaf geiriau lluosill mewn Cymraeg Diweddar a gwelir y ffurf hon hefyd yn *H*: cf. *breint* a *braint*, *ceiff* a *gaiff*, *reit* a *rait*, *nei* a *nai*, *anifeil* ac *anifail*, *kyfreith* a *kyfraith*. Mae amrywiaeth yn yr orgraff yn arwydd fod y sain wedi dechrau newid. Fel rheol mewn testunau Cymraeg Canol defnyddir *ei* am [ei] mewn geiriau unsill ac ni ddaw *ai* yn gyffredin tan y bymthegfed ganrif.¹⁵

Defnyddir *b* ac weithiau *p* am /-b/, e.e. *mab*, *attep*. Cynrychiolir /k/ gan *c* a *k* fel ei gilydd (heb ddilyn patrwm seinegol), e.e. *keitweit*, *celein*. Cynrychiolir /ç/ gan *ch*. Cynrychiolir /-d-/ gan *d* a *t*, e.e. *atran*, *gwadu*. Fel Llyfr Coch Hergest (c.1400) a Llyfr yr Ancr (1346) defnyddir *t* am /-d/, e.e. *brawt*, *tat*. Gall *f*, *u*, ac *ö* gynrychioli [v], e.e. *kyfyrdew*, *hanuot*, *öyd*. Defnyddir *ff* i gynrychioli [f] a'r treigladd *ph*, e.e. *fferthyn*. Cynrychiolir /g/ gan *g* ar ddechrau a chanol geiriau. Defnyddir *c* am /-g/, e.e. *golwc*, *diffyc* fel yn Llyfr Gwyn Rhydderch (c.1350) a'r Llyfr Coch: yr unig eithriad yw *marchog*. Fel rheol defnyddir *ng* am /ŋ/. Cynrychiolir [l], [λ], /m/, /n/, /p/, /t/, /s/, /t/, /θ/, gan *l*, *ll*, *m*, *n*, *p*, *r*, *s*, *t*, *th*. Weithiau dyblir y llythrennau naill ai yn ôl tarddiad neu/ac ynganiad, e.e. *penn*, *gwyppo*, *charcherrir*, *gossot*, *attep*.

Defnyddir *d* ac *dd* am /ð/. Fe ddefnyddir *dd* ar ddechrau, yng nghanol, ac ar ddiwedd geiriau: *dda*, *roddaf*, *gordd*. Gellid olrhain y defnydd o *dd* am /ð/ i gyfnod cynnar. Gwnaed defnydd o'r arwydd *dd* mewn darnau o farwnad Llywelyn ap Iorwerth gan Dafydd Benfras a gopiwyd ar waelod rhai o ddalennau y Llyfr Du o'r Waun.¹⁶ Yr oedd *dd* hefyd yn rhan o orgraff llaw alpha Llawysgrif Hendregadredd (LIGC 6680B) tua 1300, e.e. *greddyf ddiletyf ddilesc* (f. 26^r),¹⁷ ond ni ddefnyddiai *dd* ar ddiwedd geiriau. Yr oedd yr ail haen o lawiau (diweddarach) a fu'n gweithio ar Lawysgrif Hendregadredd hefyd yn defnyddio *dd* ond eto nid ar ddiwedd geiriau;¹⁸ tra bo nifer fawr o lawiau haen tri, sy'n dyddio o ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg, yn defnyddio *dd* ar ddechrau, yng nghanol, ac ar ddiwedd geiriau.¹⁹ Awgrymodd T. M. Charles-Edwards a Paul Russell fod *dd* wedi ei dyfeisio fel arwydd arbennig yn y drydedd ganrif ar ddeg er mwyn ysgrifennu barddoniaeth.²⁰ Honnont nad oes enghreifftiau o *dd* mewn

¹⁴ Gohebiaeth bersonol â Dr Iwan Wmffre. Mae Jackson yn dyddio'r newid hwn i ddiwedd yr 11g., gw. Kenneth Jackson, *Language and History in Early Britain* (Edinburgh, 1953), tt. 296–9, 699. Cf. Iwan Wmffre, *Languages and Place-names in Wales: The Evidence of Toponymy in Cardiganshire* (Cardiff, 2003), t. 78 n. 1.

¹⁵ Am enghreifftiau o *ai* yn y 14g. gw. erthygl Ann Parry Owen t. 7 uchod.

¹⁶ T. M. Charles-Edwards a Paul Russell, 'The Hendregadredd Manuscript and the Orthography and Phonology of Welsh in the Early Fourteenth Century', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 28 (1993–4), 433.

¹⁷ *Ibid.*, 432.

¹⁸ *Ibid.*, 442.

¹⁹ *Ibid.*, 446.

²⁰ *Ibid.*, 433.

testunau rhyddiaith o'r drydedd ganrif ar ddeg, nac o'r bedwaredd ganrif ar ddeg.²¹ Serch hynny, ceir tua 100 o enghreifftiau o *dd* am /*ð*/ ar ddechrau ac yng nghanol geiriau, ond nid ar ddiwedd geiriau yn 'Ystoria Bown de Hamtwn' yn Llyfr Gwyn Rhydderch.²² Mae testun Llyfr Ancr Llanddewibrefi (1346) hefyd yn arddel *dd* am /*ð*/.²³ Cymharol brin yw'r enghreifftiau o *dd* am /*ð*/ yn y testunau uchod tra bo dros dri chant o enghreifftiau yn *H*. Fe'i harferid yn aml ar ddiwedd geiriau yn *H* sydd yn awgrymu bod *H* yn perthyn i gyfnod ar ôl ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Yn ôl canllawiau Peter Wynn Thomas gellir gweld bod nodweddion ieithyddol yn y testun sy'n awgrymu mai tarddiad gogleddol sydd iddo.²⁴ Cyfeiria Peter Wynn Thomas at dri newidyn ieithyddol sy'n gallu bod yn arwyddocaol wrth geisio lleoli testunau Cymraeg Canol. 1) Cyfeiria at enghreifftiau o eiriau yn cynnwys, neu ddim yn cynnwys, *i* gytsain mewn olddodiaid, er enghraifft, *meychyeulmeicheu*; gyda'r *i* gytsain yn nodweddiadol o destunau'r gogledd a'r enghreifftiau heb *i* gytsain yn nodweddiadol o destunau'r de.²⁵ Yn amlach na pheidio mae'r *i* gytsain i'w chael yn *H*, e.e. *keinyawc*, *keissyaw* a.y.y.b. 2) Newidion eraill sydd â chysylltiadau daearyddol yw'r defnydd o *ryngthaw* a *ryngthunt* fel ffurfiau trydydd person *rhwng* yn hytrach na *ryngtaw* a *ryngtunt* sy'n ffurfiau deheuol: *ryngthaw* a *rhyngthunt* sy'n digwydd yn *H*. Fel rheol yn *H* defnyddir *ganthaw* am un o ffurfiau trydydd person *gan* yn ogystal â *genthi* a *ganthunt* sydd hefyd yn cael eu cyfri'n nodweddion gogleddol.²⁶ 3) Mae'r newidyn ieithyddol *awð/w(y)s* yn y trydydd person unigol gorffennol yn fwy anodd ei ddefnyddio fel nodwedd i leoli testun. Serch hynny, awgryma'r aml ddefnydd o'r terfyniad trydydd person *-w(y)s* mewn testun gogleddol fod y testun yn perthyn i ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg; cysylltir y defnydd o *-w(y)s* â'r drydedd ganrif ar ddeg a'r defnydd o *-awð* â'r bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif.²⁷ Mae enghreifftiau o *-awð* ac *-w(y)s* yn y testun: 59.61 y cant *w(y)s*; 40.38 y cant *awð*. Mae'r defnydd aml o *-w(y)s* yn awgrymu bod *H* yn destun gogleddol cynnar ond, yn gamarweiniol, fe ymddengys bod yr ysgrifydd mewn nifer o enghreifftiau wedi codi *-w(y)s* o'i gynseiliau, e.e. yn y triawd 'Teir brawt ameu y sydd'²⁸ sydd o bosibl wedi ei godi o Ladin D (testun deheuol cynnar).²⁹ Mae'r dystiolaeth ieithyddol ac orgraffyddol, felly, yn awgrymu bod *H* yn deillio o ogledd Cymru ac yn perthyn i ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg (o ran y defnydd o *dd* ac *ei > ai*). Serch hynny, yr oedd iaith ac orgraff Cymraeg Canol yn anwadal ac mae'n debyg na ddylid rhoi gormod o bwyslais arnynt fel modd i leoli nac i ddyddio testun.

²¹ Ibid.

²² Morgan Watkin (gol.), *Ystoria Bown De Hamtwn* (Caerdydd, 1958), t. cviii.

²³ J. Morris Jones a John Rhŷs (goln), *The Elucidarium and Other Tracts in Welsh from Llyvyr Agkyr Llanddewivrevi AD 1346* (Oxford, 1894), t. xxii.

²⁴ Peter Wynn Thomas, 'Middle Welsh Dialects: Problems and Perspectives', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 40 (1993), 17–50; idem, 'Cydberthynas y Pedair Fersiwn Ganoloesol' yn Sioned Davies a Peter Wynn Thomas (goln), *Canhwyl Marchogyon: Cyd-destunoli Peredur* (Caerdydd, 2000), tt. 10–49.

²⁵ Thomas, 'Middle Welsh Dialects', 25–7.

²⁶ Ond ceir dwy enghraifft o *gantaw* yn y testun.

²⁷ Thomas, 'Middle Welsh Dialects: Problems and Perspectives', 34–5.

²⁸ Llawysgrif LIGC, Peniarth 278, t. 188.

²⁹ Ar adegau mae geiriad *H* yn nes at droedd Cymraeg Lladin D na rhai Llyfr Blegywryd.

Y sgrïpt

Dyma'r unig lawysgrif o Gyfraith Hywel sydd wedi ei hysgrifennu mewn *Anglicana*. Tarddodd *Anglicana* yn ei ffurf gynharaf, fwy na thebyg, o Ffrainc ond fe'i cysylltir â Lloegr oherwydd ei mabwysiadu yn ysgrifennu yn y llysoedd Seisnig. Fe'i defnyddid yn gyffredinol yn Lloegr yn y drydedd ganrif ar ddeg a'r sgrïpt honno a ddefnyddid fynychaf yn y llysoedd yno hyd ganol y bymthegfed ganrif.³⁰ Gelwid y sgrïpt, cyn i M. B. Parkes ei dehongli, yn *documentary hand* neu *court hand* sy'n awgrymu cysylltiad dogfennol neu gyfreithiol.³¹ Un o brif nodweddion *Anglicana* yw fod yr esgynyddion a'r disgynyddion yn plygu, gyda'r ysgrifydd yn codi ei ysgrifbin oddi ar y memrwn gyn lleied ag sydd yn bosibl. Datblygodd yr ysgrifennu redol hon i ymateb i'r angen am ysgrifennu'n gyflym yn y llysoedd. Mae'r *Anglicana* a ddefnyddir gan ysgrifydd *H* wedi ei datblygu'n llawn. Dyma'r unig lawysgrif Gymraeg sydd wedi ei hysgrifennu mewn *Anglicana* cyn 1400³² ar wahân i ychwanegiadau at lawysgrifau megis Llawysgrif Hendregadredd (casgliad o farddoniaeth llys),³³ ac ychwanegwyd deunydd at brif destun llawysgrif cyfraith LIGC Peniarth 37 (*U*) gan law debyg iawn i law *H*. Llawysgrif o hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg yw *U* sydd yn yr un llaw â llawysgrifau LIGC Peniarth 35 (*G*) a Pheniarth 45 (sy'n cynnwys copi o Frut y Brenhinedd). Mae geirfa ac orgraff llawysgrif *U* yn ddeheuol ond mae'r llawysgrif yn cynnwys rhai elfennau gogleddol, er enghraifft, mae'n cynnwys copi o Lyfr y Damweiniau sydd yn deillio o lawysgrifau Iorwerth.³⁴ Ychwanegodd llaw debyg iawn i law ysgrifydd *H marginalia* ar ymyl tudalennau llawysgrif *U* (ff. 3, 13^v–14, 15^v–20, a hefyd o bosibl ar ff. 18^v–19, 24^v–5, 44^v–5). Bu'r un llaw hefyd yn llenwi'r tudalennau gwag ar ddiwedd y llawysgrif, ff. 77–8, lle copiwyd cyfres o dri-oedd. Sonir am bwysigrwydd trioedd i destun *H* isod.³⁵ Mae tebygrwydd rhwng y darnau hyn o Beniarth 37 a llaw *H*. Defnyddir yr un math o lythrennau a phriflythrennau. Defnyddir yr un dull o danlinellu dechrau paragraffau newydd, defnyddir atalnodi yng nghanol brawddegau sy'n gweithredu fel y coma modern, a defnyddir yr un byrfoddau. Un o nodweddion hynod ysgrifydd *H* yw ei fod yn dueddol o roi prif lythyren ar flaen geiriau sy'n dechrau â *g*; mae hyn hefyd yn nodwedd yn y darnau hynny o Beniarth 37. Yn llawysgrif D/GW 2082 yng nghasgliad Gwysanau yn Archifdy Sir y Fflint, Penarlâg (llawysgrif na ddaeth i sylw tan yn ddiweddar ac a drafodir isod) ceir darn anghyflawn o destun gramadegol o'r bedwaredd ganrif ar deg sydd mewn llaw debyg iawn i *H*. Mae ffurf llythrennau'r darn yn debyg, defnyddir yr un dull o danlinellu ac atalnodi, a weithiau rhoddir prif lythyren ar flaen geiriau sy'n dechrau â *g*. Tuedda'r tair llaw hefyd i ddefnyddio'r un system ieithyddol ac orgraffyddol: ar brydiau defnyddir *dd* am /ð/ ar ddechrau, yng nghanol, ac ar ddiwedd geiriau; defnyddir *ng k-* i ddynodi'r treigladd trwynol; defnyddir yr *i* gytsain gan y tair llaw a cheir enghreifftiau o *ei > ai* yn *H* a Gramadeg Gwysanau.³⁶ Awgryma'r nodweddion hyn y gall mai'r un gŵr a ysgrifennodd *H*,

³⁰ M. B. Parkes, *English Cursive Book Hands 1250–1500* (Oxford, 1969); Anthony G. Petti, *English Literary Hands from Chaucer to Dryden* (London, 1977), t. 14.

³¹ Gw. C. Johnson a C. H. Jenkinson, *English Court Hand 1066–1500*, dwy ran (Oxford, 1915); Hector, *The Handwriting of English Documents*; a B. Bischoff, *Latin Palaeography: Antiquity and the Middle Ages* (Cambridge, 1990).

³² Huws, *Medieval Welsh Manuscripts*, t. 46.

³³ Daniel Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 22 (1981–2), 1–23.

³⁴ T. M. Charles-Edwards, Morfydd E. Owen a Paul Russell (goln), *The Welsh King and His Court* (Cardiff, 2000), t. 13.

³⁵ Gw. isod, tt. 38–42.

³⁶ Am sgrïpt ac orgraff Gramadeg Gwysanau gw. erthygl Ann Parry Owen, tt. 2–8 uchod.

Gramadeg Gwysanau a'r deunydd atodol yn *U*. Gweler y lluniau o'r llawysgrifau ar dudalennau 4–5.

Mae'r ffaith fod ysgrifydd *H* yn defnyddio *Anglicana* mor rhwydd yn awgrymu ei fod wedi ei hyfforddi ar gyfer ysgrifennu'n gyflym at ddibenion cyfreithiol neu eglwysig. Dyma oedd llaw bonheddwyr addysgedig a llaw swyddogion gweinyddol y cyfnod. Bu tair haen o lawiau yn gweithio ar Lawysgrif Hendregadredd ar wahanol adegau. Perthyn y drydedd haen i ail chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg ac mae nifer o'r llawiau hyn yn rhai rhedol.³⁷ Awgrymodd Daniel Huws mai llyfr llys Ieuan Llwyd (*fl.* 1332–43) o Lyn Aeron oedd Llawysgrif Hendregadredd.³⁸ Ar ffolio 91^r cofnodwyd awdl i Dduw a gyfansoddwyd gan Ruffudd Gryg (*fl.* 1357–70) sydd wedi ei hysgrifennu mewn llaw debycach na'r gweddill i law ysgrifydd *H*. Dichon fod y gerdd glerwraidd hon gan Ruffudd Gryg yn llaw'r bardd ei hun. Yr oedd Gruffudd yn rhingyll ym Malltraeth, Môn ac efallai yr adlewyrchir ei gefndir gweinyddol yn ei ysgrifen anglicanaidd ffurfiol.³⁹

Defnyddir y byrfoddau Lladin hyn yn *H*:

- a) Crogiant – Lle y gollyngir diwedd gair, er enghraifft, *paha'[m], dynyo'[n]*. Dynodir y gollyngiad â chroglinell fer uwchben neu drwy air, neu gydag atalnod llawn. Ar adegau gollyngir popeth ond llythyren gyntaf gair, e.e. *k,[yfraith], ð[erfydd], mae ym d.[igawn] a.[e] g.[wyr]*. Defnyddir *i.* am y Lladin *id est/ hynny yw*.
- b) Talfyriad – Gollyngir llythyren o ganol gair, e.e. *hyn'[n]y, hwn'[n]w*.
- c) Arwyddion arbennig – Yn gwbl nodweddiadol o'r system Ladin defnyddir *p* i gynrychioli *per*, e.e. yn *p[er]chennog, p[er]thyno*.
- ch) Llythrennau uwchysgrifol – yn aml dynodir y gair *tri* gan *t̄*. Mae'r *i* ddyrchafedig yn dynodi bod y llythyren *r* ar goll.

Awgryma hyn fod ysgrifydd *H* yn gyfarwydd â systemau ysgrifennu Lladin ac yn cymathu'r rheini i'r Gymraeg.

Mae ôl cywiro ar y testun. Ar adegau gellir gweld bod yr ysgrifydd wedi crafu'r memrwn â chylllell finiog i gael gwared ar gamgymeriad ac yna'n ysgrifennu drosto neu'n ei adael yn wag.⁴⁰ Dro arall, dilëir geiriau neu gymalau drwy roi llinell neu groes drwyddynt; gwelir yr enghraifft fwyaf o hyn ar d. 32 lle y croesir allan baragraff cyfan.⁴¹ Defnyddiai hefyd y dechneg o roddi dot (*punctum delens*) o dan llythyren anghywir gyda'r llythyren gywir uwchben, er enghraifft, t. 35. Ceir nifer o ychwanegiadau uwchben llinellau yn dilyn saeth neu farc fel hyn ^ a elwir yn farc *caret*, rhai yn yr un lliw inc â'r prif destun ac eraill mewn lliw gwahanol sy'n awgrymu iddynt gael eu hychwanegu yn ddiweddarach. Mae maint a gwedd yr ysgrifen yn gallu amrywio'n sylweddol. Awgryma hyn i'r ysgrifydd ddychwelyd at ei waith droeon i ychwanegu deunydd newydd. Ymddengys nad oedd yr ysgrifydd yn cymryd gofal

³⁷ Gw. llawysgrif LIGC 6680B, ff. 31^v, 73^v, 76^r, 76–7^v, 91^r, 95^v, 115^r, 126^r, 130^r. Ceir ffacsibili o'r llawysgrif ar wefan ddiigidol LIGC: <http://digidol.llgc.org.uk/METS/LLH00001/frames>.

³⁸ Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd', 11–12. Am Ieuan Llwyd gw. D. Hywel E. Roberts, 'Noddwyr y Beirdd yn Sir Aberteifi', *Llên Cymru*, 10 (1968–9), 76–109.

³⁹ Rhingyll oedd swyddog y cwmwd a gasglai'r westfa dros y goron. Gw. T. M. Charles-Edwards, Morfydd E. Owen a Dafydd B. Walters, *Lawyers and Laymen* (Cardiff, 1986), t. 351; R. A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: The Structure and Personnel of Government*, i. *South Wales, 1277–1536* (Cardiff, 1972), tt. 60–9; ac isod, t. 49.

⁴⁰ E. e. f. 83^r.

⁴¹ Dilëwyd oddeutu 8 llinell ar d. 67 hefyd.

mawr wrth gofnodi'r testun. Efallai fod yr holl gamgymeriadau sydd yn y testun, ynghyd â'r darn bychan o femrwn sydd wedi ei ychwanegu ato (tt. 57–8), yn awgrymu nad oedd y llawysgrif yn cynnwys copi terfynol o'r testun.⁴² Cynnwys y llawysgrif a oedd yn bwysig ac nid ei golwg. Nid yw'n llawysgrif ddeniadol o safbwynt caligraffig ac ni chafodd ei haddurno fel y llawysgrifau a gopiwyd ar gyfer llyfrgelloedd, megis llawysgrif LIGC Peniarth 28.⁴³

O edrych yn fanwl ar y llawysgrif gwelir olion gweithgarwch dwy law diweddarach. Ar dd. 13, 33, 85–6, 111–14, 118, 130, 149, 152, 160–2 mae darnau o'r testun wedi eu hysgrifennu mewn inc tywyllach ac mae'r ysgrifen yn edrych ychydig yn wahanol i'r brif law. Mae ffurf y llythrennau *d* yn wahanol yn y darnau hynny a thueddir i ddefnyddio'r ffurf dair strôc ar *w*, '113'. Weithiau hefyd mae modd gweld gwahaniaeth yn y llythrennau *a*, *i*, *r* ac *y*. Awgryma'r ysgrifen mai llaw ychydig yn ddiweddarach yw hon sydd wedi ysgrifennu dros rannau o'r testun gan geisio efelychu steil y llaw wreiddiol. Mae'n debyg fod y llaw hon hefyd wedi ychwanegu deunydd at y testun ar dudalennau olaf y llawysgrif. Bu llaw arall (o'r bymthegfed ganrif) yn ysgrifennu dros y testun ar dd. 29, 93, 98, 115, 122 a 159 lle gwelir yr unig enghreifftiau o'r ffurfiau crwn ar *r* (fel 2) ac *e* (fel 0). Awgryma hyn fod rhannau o'r testun yn annarllenadwy o gyfnod cynnar iawn. Gadawodd John Jones, Gellilyfdy, lawer o fylchau yn ei gopi o'r testun yn Llanstephan 121, sy'n dangos bod rhannau o'r testun yn annarllenadwy hyd yn oed cyn i John Jones roi staen bustl ar y llawysgrif.

*Y testun*⁴⁴

Mae'r rhan fwyaf o'r llawysgrifau cyfraith, sydd fel arfer yn llyfrau twt a chymen, yn cynnwys fersiwn o un o'r prif ddulliau, sef Cyfnerth, Blegywryd, Iorwerth neu destun Lladin. Yn gam neu'n gymwys dosbarthwyd *H* fel un o lawysgrifau Iorwerth gan Aneurin Owen ac Aled Rhys Wiliam.⁴⁵ Dechreuau'r rhan fwyaf o'r llawysgrifau â Rhaglith sy'n cysylltu'r gyfraith â Hywel Dda. Yna rhestrir Cyfreithiau'r Llys. Dilynir hynny gan draethodau sy'n trafod gwahanol feysydd cyfreithiol fel rheolau yn ymwneud â galanas (llofruddiaeth), llosg, a lladrad; cyfraith y gwragedd; cyfraith tir; a.y.y.b.: gelwir hyn yn Gyfraith y Wlad. Mae llawysgrifau Iorwerth yn corffori'r rhan fwyaf o'r deunydd hwn mewn adran a elwir yn 'Llyfr Prawf Ynaid'. Yn rhai o'r llawysgrifau diweddarach cynhwyswyd deunydd ychwanegol megis trioedd, damweiniau (sef cyfresi o reolau yn dechrau gydag 'O derfydd'), a holiadon (sef nifer o gwestiynau ac atebion), at gynnwys y prif ddulliau. Mae strwythur testun *H* ar y llaw arall yn gwbl wahanol i strwythur cyffredinol y llyfrau cyfraith gan nad yw'n cynnwys copi o un o'r prif ddulliau ac mae'r deunydd sydd fel arfer yn gynffon ychwanegol yn ganolog i'r testun. Dyma'r unig destun sydd yn agor â chyfres o drioedd yn hytrach nag â'r Rhaglith am Hywel Dda.

⁴² Cf. sylwadau tebyg ar Gwysanau, Ann Parry Owen t. 2 uchod.

⁴³ Gw. Daniel Huws, *Peniarth 28: Darluniau o Lyfr Cyfraith Hywel Dda / Illustrations from a Welsh Lawbook* (Aberystwyth, 1988).

⁴⁴ Gan fod *H* mewn cyflwr truenus ac oherwydd nodweddion orgraffyddol hynod Llanstephan 121 a bod darnau helaeth o'r llawysgrif honno bellach yn annarllenadwy, testun llawysgrif Peniarth 278 a ddyfynnir yn y drafodaeth sy'n dilyn.

⁴⁵ *Ancient Laws*, I, t. xxix; *Llyfr Iorwerth*, t. xxix.

Trioedd

Un o nodweddion y llyfrau cyfraith yw cyflwyno rheolau ar ffurf trioedd, ffurf a fabwysiadwyd, mae'n debyg, er mwyn gwneud y rheolau'n fwy cofiadwy. Lluniwyd trioedd ar bob agwedd o'r gyfraith. Golygwyd y trioedd hyn ac eithrio trioedd Iorwerth gan Sara Elin Roberts yn *The Legal Triads of Medieval Wales*.⁴⁶ Mae Cyfnerth, Blegywryd a'r dulliau Lladin oll yn cynnwys nifer o drioedd ond casgliad byr o un triawd ar ddeg yn unig a geir yn llawysgrifau Iorwerth. Yr unig eithriad yw llawysgrif LIGC Peniarth 40 (*K*), un o lawysgrifau Iorwerth sy'n dangos dylanwad Blegywryd, lle ceir casgliad hir o drioedd, ac mae'r un casgliad o drioedd i'w gael yn nhestunau diweddar Blegywryd: BL Add. 22356 (*S*), LIGC Llanstephan 116 (*Tim*), a LIGC Wynnstay 36 (*Q*). Ceir y casgliadau mwyaf o drioedd yn llawysgrifau Blegywryd gyda nifer y trioedd yn cynyddu wrth i'r canrifoedd fynd rhagddynt. Y mae'r casgliad hwyaf 'Cyfnerthaidd' i'w gael yn llawysgrif Bodorgan (*Mk*) sy'n perthyn i hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yn y llawysgrifau lle mae nifer o drioedd wedi eu casglu ynghyd gellir gweld y tu mewn i'r casgliadau gyfresi o drioedd a glymir at ei gilydd naill ai drwy thema, megis y gyfresi ar ladrad: 'Tri lleidyr camlyryus yssyd, Tri lleidr dirwys yssyd, Tri lleidr gwerth yssyd, Tri lleidyr crogadwy yssyd, Tri lleidyr a dieinc o letrat kyfadef'⁴⁷ neu ddyfeisiau arddull, megis pennawd yn dechrau ag amrywiad ar yr un ymadrodd allweddol: 'Tri gwahan yssyd rwg gwybydyeit a thyston, Teir fford y mae kadarnach gwybydyeit no thyston'.⁴⁸ Y mae'r cyfresi hyn yn cadw'r un rhediad o lawysgrif i lawysgrif yn arbennig yn llawysgrifau traddodiad Blegywryd, er y gallasai fod rhywfaint o amrywiaeth trefn y tu mewn i'r rhediad.

Yn wahanol i destunau eraill lle mae'r trioedd wedi eu lleoli ar ddiwedd testun cyfreithiol, neu yng nghanol y testun mewn manau perthnasol, dechreu testun *H* â chyfresi o drioedd. Mae *H* yn cynnwys yn agos i 500 o drioedd gyda chanran uchel ohonynt yn annibynnol ar y trioedd sydd i'w cael yn Blegywryd a Chyfnerth. Creodd Enoch Powell ei driawd ei hun wrth geisio diffinio trosglwyddiad y trioedd cyfraith: 'Gellir cynnwys triawd mewn llsg. mewn tri modd: (*a*) drwy ei godi o lsg. arall lle y cynhwyswyd ef eisoes, neu (*b*) drwy ddyfais neu gof y copiwr, neu (*c*) drwy ei ddyfynnu o gasgliad annibynnol o drioedd.'⁴⁹ Ymddengys fod casgliad trioedd *H* wedi elwa ar y tri modd hyn.

Mae'r testun yn agor â chyfresi o drioedd sydd â chyfatebiaeth iddynt yng nghasgliad Blegywryd o drioedd: 'Tri defnydd hawl y sydd, Tri gwallawcair y sydd, Tri tafawd weli y sydd, Tri golwc [a d]ygir ynghyfraith'.⁵⁰ Ceir nifer o enghreifftiau tebyg lle mae awdur y testun yn gwneud defnydd o drioedd sydd i'w canfod yn llawysgrifau Blegywryd. Wrth gymharu trioedd *H* â thrioedd Blegywryd gellir gweld bod geiriad trioedd *H* yn amrywio tipyn ac nid yw testun *H* fel y cyfryw yn dilyn yn ffyddlon rediad na threfn casgliad Blegywryd. Ymddengys fod awdur y testun wedi dyfynnu casgliad Blegywryd lle bo hynny'n berthnasol i thema neu bwnc y testun. Er bod awdur y testun yn dyfynnu trioedd sy'n hysbys o ffynonellau eraill, yn aml mae'r awdur wedi newid geiriad y trioedd neu ychwanegu atynt. Yr oedd ganddo'r gallu i weddnewid ei ffynonellau gan addasu ac ychwanegu at drioedd a oedd eisoes yn bodoli, gan adael ei stamp personol arnynt, er enghraifft:

⁴⁶ Sara Elin Roberts, *The Legal Triads of Medieval Wales* (Cardiff, 2007).

⁴⁷ Gw. *Llyfr Blegywryd*, t. 122/8–32.

⁴⁸ Gw. *ibid.*, tt. 121/14–122/3.

⁴⁹ *Llyfr Blegywryd*, t. xliii.

⁵⁰ Llawysgrif Peniarth 278, t. 1.



Tri ouer ymadrawd a dywedir yn llys ac ny ffynnyant: gwat kynn deturyt, a llys kynn amser, cof a chyghaws gwedy brawt.⁵¹

Tri ofer ymadrawd a ddywedir mewn gorsedd: llys cyn amser, .i. llyssu cyn tyngu; a gwat cyn defryt, sef yw hynny, gwadu o'r mach peth cyn defryt o'r mach, o bydd cyfaddef; a chynghauss-eth wedy brawt, cany ellir yna eithyr ymwystlaw am y farn.⁵²

Cynigir esboniad i gymalau'r triawd gan adlewyrchu gwybodaeth gyfreithiol yr awdur a'i allu i ddadansoddi ei ffynonellau. Mae nifer o enghreifftiau yn y testun lle mae'r awdur wedi mynd ati i ychwanegu glosau at destunau hysbys, weithiau trwy ddefnyddio'r byrfodd Lladin .i. am *id est*, sef 'hynny yw'.

Codwyd rhai o drioedd *H* o destunau cyfraith eraill. Copiwyd ambell un yn ffyddlon ond yn amlach na pheidio arbrofodd awdur y testun â'u geiriad a'u cynnwys er mwyn creu fersiynau newydd o hen drioedd. Mae rhan helaeth o'r drioedd hynny yn gyffredin mewn nifer o lawysgrifau Blegywryd tra bo llond drwn ohonynt yn digwydd mewn nifer bychan o lawysgrifau yn unig. Llawysgrif bapur o ail hanner yr unfed ganrif ar bymtheg yn llaw Richard Longford o Drefalun a'i gynorthwywr yw llawysgrif LIGC Peniarth 259B (*Z*).⁵³ Copi ydyw o lawysgrif hîn.⁵⁴ Mae llawysgrif *Z* yn cynnwys 119 o drioedd. Digwydd llawer o'r drioedd hynny mewn llawysgrifau eraill o ddull Cyfnerth neu Flegywryd.⁵⁵ Serch hynny, mae rhai o'r drioedd yn unigryw i lawysgrifau *Z* a *H*, er enghraifft:

Tri modd y bydd kamlwrw: vn yw am anaddawt a wneler yn erbyn y brenin, a hwnnw a ddamweinia o lawer modd. Ail yw gwneuthur peth kamgyleus anghyvyreithiawl yn erbyn brenin yn i lys neu oddige i lys. Trydydd yw gwneuthur peth yn erbyn i wyr nev y denantiait i wlat yn anghyvreithlon ac y perthyn kamlwrw amdanunt.⁵⁶

O dri modd y bydd camlwrw: un yw am anayddawt y'r brenin, a hwnnw a ddamweinia o lawer modd. Eil yw gwneuthur peth camgyflus angcyfreithiawl yn erbyn y brenin. Trydydd, gwneuthur cam, neu angcyfreith, y perthyno camlwrw amdanaw yn erbyn y wlat neu y wyr.⁵⁷

Fe ymddengys fod perthynas agos rhwng drioedd *H* a'r drioedd yn y gynffon i lawysgrif *Z*; a'r ddau destun yn defnyddio'r un ffynhonnell ar brydiau. Ni ddyfynnwyd y ffynhonnell

⁵¹ *Llyfr Blegywryd*, t. 110/23–25.

⁵² Llawysgrif Peniarth 278, t. 143.

⁵³ Evans, *Report*, II, tt. 1074–5; T. M. Charles-Edwards, *The Welsh Laws* (Cardiff, 1989), t. 102. Ceir disgrifiad byr o'r llawysgrif yn Daniel Huws, 'Yr Hen Risiart Langfford', yn Morfydd E. Owen a Brynley F. Roberts (goln), *Beirdd a Thywysogion* (Caerdydd, 1996), tt. 308–9.

⁵⁴ Mae tarddiad llawysgrif *Z* yn gymhleth. Ar f. 72^{rv} sonnir sut y daeth cysail *Z* i feddiant gŵr o'r enw Einion ab Adda a'i cafodd gan brior o Ddeheubarth tra oedd wedi ei garcharu ym Mhwmffred. Yn ôl Daniel Huws defnyddid castell Pwmffred fel carchar oddeutu 1322 a dichon fod gwŷr o arglwyddiaethau Cymreig Lancaster wedi eu carcharu yno. Byddai hyn yn awgrymu bod cysail *Z* yn deillio o'r 14g. Mae'r nodyn hefyd yn awgrymu bod cysail *Z* yn tarddu o Ddeheubarth (neu o leiaf fod perchennog y llawysgrif yn hanu o Ddeheubarth); ond mae'n bosibl nad oedd hynny'n wir am yr holl destun. Nodyn yn llaw Richard Longford yw hwn a dichon iddo'i gofnodi ar hap ar un o ddalennau'r llawysgrif. Awgrymodd Dafydd Jenkins na ddylid dyddio cysail *Z* i gyfnod cyn 1400: gw. isod n. 131. Dichon fod y fersiwn o Lyfr Cyfnerth sydd yn *Z* yn destun cynnar a oedd efallai'n dyddio o'r 14g. (mae'n debyg i destun llawysgrif BL Cotton Cleopatra B.V. (*X*) sy'n dyddio o ganol y 14g.); ond yna ceir deunydd ychwanegol yng nghynffon y llawysgrif, e.e. rhaglith estynedig sy'n adrodd hanes Hywel Dda yn mynd i Rufain, sy'n ymddangos fel testun diweddarach. Mae hyn yn awgrymu bod testunau o wahanol gyfnodau ac efallai o wahanol ardaloedd wedi eu cyfuno yn y llawysgrif. Ceir glosau i'r rhan honno o'r testun sy'n perthyn i Lyfr Cyfnerth a godwyd mae'n debyg o'r gysail ond mae'r glosau'n peidio ar ôl f. 46^v. Awgryma hyn fod y testun hwnnw'n cylchredeg ar wahân ar un adeg.

⁵⁵ Roberts, *Legal Triads of Medieval Wales*, t. 22.

⁵⁶ *Z*, f. 86^v; gw. hefyd Roberts, *Legal Triads of Medieval Wales*, t. 366.

⁵⁷ Llawysgrif Peniarth 278, t. 32.



honno mewn unrhyw llawysgrif arall. Awgryma hyn yn gryf fod *H* a *Z* yn tynnu ar gasgliad o droedd a oedd yn annibynnol ar y prif gasgliad a gynrychiolir yn llawysgrifau Blegywryd.

Yn bennaf hoffai awdur testun *H* gyfansoddi trioedd newydd o gynnwys y llyfrau cyfraith, nodwedd sy'n tystio i'w allu llenyddol a chyfreithiol. Mae un gyfres arbennig o droedd yn rhoi cipolwg i ni ar sut yr aeth yr awdur ati i addasu testun a oedd eisoes yn bodoli a'i ailgyflwyno ar ffurf trioedd. Mewn pedair llawysgrif yn unig (sef LIGC Peniarth 34 (*F*); llawysgrif goll Llanforda; LIGC Peniarth 32 (*D*); a LIGC Peniarth 30, sef Llyfr Colan) ceir traethawd cyfraith byr sy'n adrodd chwedl Maelgwn Gwynedd a sut y bu iddo ennill goruchafiaeth i linach Aberffraw dros weddill Cymru.

Guedy duyn coron Llundeyn a'r tyrim guyalen y gan genedyl Gemre ac eu dyhol o Lloygyr e gossodassant datleu e edrych puy a uey brenyn penhaf onadunt. A sef e lle e gossodassant eu datleu ar Traeth Maelgwn en aber Deuy, ac ena e doethant guyr Guynet a Powys a Deheuparth a Ywas a Morganguc a Sseyssylluc. Ac ena e dodes Maeldaf Henaf uab Vnhwch Vnarchen pendeuyc Penarth en Aruon cadeyr wen o adanet cuyredyc adan Uaelgun, a pan doeth e llanu ny allasant dyodof e datleu namyn Maelgun o achau y cadeyr. Ac urth hynny e cauas ef y uot en urenhyn penhaf, ac Aberfrau en pen llysoet, a yarll Mathraual a yarll Dyneuur a yarll Caerleon adanau enteu, ac en eyr y eyr ef ar pob un onadunt huy, ac en *keureyth* er eydau; ac nyt reytd ydau ef cadu eu *keureyth* wynt. A thruy ben Mayldaf Henaf e cauas Penarth e breynt a bot en hynaf kyghellaur-dref.⁵⁸

Wrth gymharu'r trioedd yn *H* â'r traethawd hwn fe ddaw'n amlwg fod awdur y testun wedi defnyddio fersiwn o'r traethawd wrth lunio ei droedd:

Tri mechdeyrn dyledoc a ddyly gwladychu Cymru oll dan y therfynau: brenin Aberffraw, arglwydd Dinefwr, a hwnn Mathrafal.

Teir prif lys arbennig sydd i'r tri theyrn hynn, yn essaydynneu breynyawl iddunt: un yw Aberffraw yn Gwynedd, Dinefwr yn y Deheu, Mathrafal Wynfa ym Powys: a llyna mal y dosparthwynt eu tehyrnas wynt yn deir rhan. Un bieu uchafiaeth ar y ddwy, nyt amgen noc Aberffraw pieu y pendifigaeth.

Tri yeirll y sydd danai hi: yarll Caerllion, a iarll Dinefwr, ac iarll Mathrafal.

Teir rhan ydoedd y Deheu: Rhiennwc, .i. gwlad Rhein; a Rhiellwc; a Morgannwc. Maeldaf hynaf ab Unwch Unarchen a beris Uaelgwn Gwynedd y wyr cael y breint cyntaf: cyn boed mwyaf o gantrefoedd yn y Deheu, uchaf yw breint Gwynedd. Pennaf cynghellawrdref ynGhymry yw Penardd yn Arfon. Maeldaf bioedd honno.⁵⁹

Mae'r gyfatebiaeth yn awgrymu'n gryf bod gan yr awdur gopi, neu fersiwn, o destun un ai llawysgrif *F*, llawysgrif Llanforda, llawysgrif *D*, neu Lyfr Colan o'i flaen wrth gyfansoddi'r trioedd hyn. Pwysigrwydd y trioedd hyn yw eu bod yn ein galluogi i weld lluniwr trioedd wrth ei waith yn defnyddio'r testunau cyfraith i greu trioedd newydd.

Mae'r testun hefyd yn cynnwys nifer o droedd unigryw yn ymwneud â'r brenin a'i lys, er enghraifft 'Teir rhan y dily neuadd y brenin y chyfansoddi', 'Teir seic a ddyly y distein y gossod yn y llys', 'Tri dyn a ddyly cowyll yn llys', 'Tri swyddawc a wasnaetha y brenin o'i heiste', 'Tri swyddawc nid oes uddunt frethynwisc', 'Tri dyn a ddyly eurdlysseu yn llys'

⁵⁸ Dyfynnwyd y testun o *The Welsh King and His Court*, t. 251. Gw. hefyd Morfydd E. Owen, 'Welsh Triads: an Overview', *Celtica*, 25 (2007), 246–7.

⁵⁹ Llawysgrif Peniarth 278, t. 13.



a.y.y.b.⁶⁰ Teg yw awgrymu bod y rhan fwyaf o'r trioedd hynny yn cynnig esiamplau o ddyfeisgarwch yr awdur. Maent hefyd yn dystiolaeth i ddi-ddordeb hynafiaethol yr awdur, gan fod trefn y llys a ddisgrifir yn y cyfreithiau wedi hen farw erbyn cyfnod cyfansoddi'r testun.

Bu awdur y testun yn brysur yn ystumio ac yn aralleirio hen droedd yn ogystal â chyfansoddi cyfresi trioedd cwbl newydd. Yn gyffredinol yr oedd ffurf y triawd yn dod yn fwyfwy poblogaidd yn yr Oesoedd Canol diweddar. Ailgylchwyd ac ymhelaethwyd ar *Trioedd Ynys Prydein* a gwnaed defnydd helaeth o'r ffurf mewn meysydd proffesiynol.⁶¹ Copiwyd trioedd meddygol,⁶² trioedd gwirebol,⁶³ trioedd cerdd,⁶⁴ trioedd arbennig,⁶⁵ ceir llond dwrn o droedd serch yn Llyfr Ancr Llanddewibrefi,⁶⁶ a thyfodd y casgliad o droedd cyfreithiol.⁶⁷ Yr oedd y triawd, felly, yn parhau i fod yn ffurf lenyddol bwysig yn y traddodiad dysgedig brodorol.⁶⁸ Gwelwyd cynnydd ym mhoblogrwydd y trioedd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen. Dichon fod arddull *H* yn rhannol ddyledus i'r ffasiwn neu'r tueddiad hwn.

Llyfr cynghawsedd

Ar wahân i'r trioedd cyfraith techneg gyfreithiol arall sy'n cael cryn dipyn o sylw yn y testun yw cynghawsedd.⁶⁹ Mae cynghawsedd yn un o'r technegau cyfreithiol sy'n dangos olion rhethreg, sef y grefft o areithio yn gyhoeddus.⁷⁰ Yr oedd cynghawsedd yn cynnig model ar sut i gyflwyno achos mewn llys barn gan egluro'r gwahanol gamau yn ogystal â dyfynnu'r ymadroddion y dylid eu defnyddio yn y llys, er enghraifft:

Ac yna y may yawn y'r ynat ofyn y'r hawlwr a seif ef yn y hawl; ac yna dywedet ynteu: 'Safaf.' Ac yna y may yawn y'r ynat ofyn y'r amddiffynwr a saif ynteu yn y amddiffyn, dywedet ynteu: 'Safaf.' Gofynnnet yr ynat iddunt y bob un o'r neilltu a fyynnant gyfreith: 'Mynwnn,' heb wynt. Gofynnnet yr ynat yna y'r arglwydd: 'A edy ditheu gyfreith rhyngthunt?' 'Gadaf', heb ef. Ac o hynny allan y may y gyfreith y meddiant yr ynat. Yna gofynnnet yr ynat: 'Pwy a ddyweit trossot ti yr hawlwr? A phwy dy gyngaws, a phwy dy ganllaw?' Dywedet yna pwy. Gofynner yna y'r cyn-gaws a gymer arnaw fot drostaw colli caffel yn yr hawl honn a dywedut: 'Cymeraf', heb ef, 'yn oet y dydd heddiw'. Gofynner y'r canllaw felly hefyt . . .⁷¹

⁶⁰ Llawysgrif Peniarth 278, tt. 14–16.

⁶¹ Gw. Rachel Bromwich (gol.), *Trioedd Ynys Prydein: the Welsh Triads*, trydydd argraffiad (Cardiff, 2006).

⁶² Gw. Nesta Lloyd a Morfydd E. Owen, *Drych yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1986), tt. 151–2.

⁶³ Morfydd E. Owen, 'Trioed hefut y6 yrei hynn', yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, 14 (Dinbych, 1988), 87–114; Lloyd a Owen, *Drych yr Oesoedd Canol*, tt. 211–14.

⁶⁴ Gw. *Gramadegau'r Penceirddiaid*, gol. G. J. Williams ac E. J. Jones (Caerdydd, 1934), tt. 16–18, 35–7, 56–8; Lloyd ac Owen, *Drych yr Oesoedd Canol*, tt. 215–16.

⁶⁵ Sef casgliad o droedd rhifyddol yn deillio o'r traddodiad Lladin a oedd yn chwarae ar y rhinweddau arbennig a briodolwyd i rai rhifau, gw. Morfydd E. Owen, 'Y Trioedd Arbennig', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 24 (1970–2), 434–50.

⁶⁶ Gw. R. Geraint Gruffydd, 'Cywyddau Triawdaidd Dafydd ap Gwilym: Rhai Sylwadau', yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, 13 (Dinbych, 1985), tt. 167–77; Huw M. Edwards, 'Y trioedd Serch', *Dwned*, 1 (1995), 25–39.

⁶⁷ Gw. Roberts, *Legal Triads of Medieval Wales*.

⁶⁸ Gw. Owen, 'Welsh Triads: an Overview', 225–50; Morfydd E. Owen, *Y Meddwl Obsesiynol: Traddodiad y Triawd Cyffredinol yn y Gymraeg a'r Myvyrian Archaeology of Wales* (Aberystwyth, 2007).

⁶⁹ Cafwyd gwaith pwysig ar gynghawsedd gan T. M. Charles-Edwards yn ei erthygl, 'Cynghawsedd: Counting and Pleading in Medieval Welsh Law', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 33 (1986), 188–98. Gw. hefyd Robin Chapman Stacey, 'Learning to Plead in Medieval Welsh Law', *Studia Celtica*, 38 (2004), 107–23; J. Beverley Smith, 'Judgement Under the Law of Wales', *Studia Celtica*, 39 (2005), 65–8.

⁷⁰ Am rethreg yn y cyfreithiau, gw. Morfydd E. Owen, 'Y Cyfreithiau – (2) Ansawdd y Rhyddiaith', yn Geraint Bowen (gol.), *Y Traddodiad Rhyddiaith yn yr Oesau Canol* (Llandysul, 1974), tt. 226–7, 238–9.

⁷¹ Llawysgrif Peniarth 278, t. 180.



Er hynny, ni ddylid cymryd yn ganiataol fod cynghawsedd yn rhoi gwir ddarlun o drefn y llysoedd yn yr Oesoedd Canol; yn hytrach dylid ei weld fel canllaw i ddarpar gyfreithwyr. Gwelir datblygiad tebyg yng nghyfraith Lloegr a gellir tynnu cymhariaeth rhwng cynghawsedd a thestunau fel *Brevia Placitata*, testun byr o ganol y drydedd ganrif ar ddeg sy'n mynegi sut y dylid dadlau achosion yn llys y brenin.⁷² Y gwahaniaeth pennaf rhwng *Brevia Placitata* a chynghawsedd yw mai *writiau* oedd sylfaen yr achosion yn *Brevia Placitata*, sef gorchmynion cyfreithiol ysgrifenedig; yr oedd pob *writ* yn cael ei ddilyn gan araith ffurfiol ac yn dilyn pob araith rhoddid amddiffyniad. Ni ddefnyddid *writiau* ysgrifenedig yng nghyfraith Hywel. Testun arall o Loegr sydd hefyd yn haeddu cymhariaeth yw *La Court de Baron* (c.1265), sef casgliad o ddadleuon ar gyfer llys maenorol. Cychwynnir yr achosion yn y testun hwn â chwynion yn hytrach na *writiau*.⁷³ Awgryma T. M. Charles-Edwards mai cwynion (cyhuddiadau) fel y rhai a argraffwyd yn *Ancient Laws*, XII oedd yn agor achosion yng Nghymru erbyn y bymthegfed ganrif, yn debyg i'r *counts* Seisnig.⁷⁴ Yr oedd cynghawsedd, felly, yn naratif a oedd yn rhan o gyfundrefn gyfreithiol ehangach ac awgryma T. M. Charles-Edwards fod y datblygiad hwn wedi digwydd ynghynt yng Nghymru nag yn Lloegr.⁷⁵

Yn annibynnol ar y prif ddulliau cyfraith ceir testun a elwir yn Llyfr Cynghawsedd. Mae'r copi cynharaf ohono yn llawysgrif BL Cotton Titus D ii (*B*); mae copi ohono hefyd yn llawysgrif LIGC Peniarth 35 (*G*), a dyfynnir rhan ohono yn llawysgrif Coleg Iesu, Rhydychen 57 (*J*): dyma sylfaen *Ancient Laws*, llyfr VII. Mae T. M. Charles-Edwards yn dyddio'r Llyfr Cynghawsedd i c.1225–c.1275, sy'n awgrymu bod y term cynghawsedd yn enw ar *genre* cyfreithiol arbennig erbyn y cyfnod hwnnw.⁷⁶ Awgryma rhai o nodweddion Llyfr Cynghawsedd fod y testun wedi ei gynhyrchu yng Ngwynedd a'i fod wedi symud i'r de erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg.⁷⁷ Er bod rhannau o destun *H* yn perthyn yn agos i Lyfr Cynghawsedd nid yw awdur y testun wedi dyfynnu Llyfr Cynghawsedd yn ei grynsyth ac nid yw'n dilyn yr un drefn; yn union fel na welodd yr angen i ddilyn trefn y casgliadau trioedd.

Addaswyd geiriad y cynghawsedd yn y testun gan awgrymu rhyw fath o fformiwla sy'n adleisio ffurf y cwynion:

Pan ddel y forwyn rhac bron, fal hynn y dily fessuraw y chwyn: ymrwymaw yng cyfreith yn gyntaf, ac yna dywedet y chynghaws fessur y chwyn: 'Cwynaw a wnaeth honn', a'e henwi, 'ac y may yn sefyll yn y chwyn'. Messur cwyn honn rhac hwn, sydd yn sefyll yn gynhyrchawl rhaccwn, ae henwi mefyl, ac amarch, a sarhaet, a gwaet, a gweli, a'e gwneuthur o forwyn yn wreic, a llygru y morwyndawt, a'e dorri y dydd a'r dydd, yn y lle a'r lle, a'r dref a'r dref, yn y cwmwt a'r cymwt . . .⁷⁸

Cymharer y cwynion yn *Ancient Laws* XII:

Mesur cwyn Ieuan ab Iankyn ab Madawg yr hwn sy gynnrychiol ar y bar, cwyn saraad. Nid amgen no dyvod or dywededig Domas dyw Merchyr gwedi hanner dydd yn yr wythnos gyntav o

⁷² G. J. Turner (gol.), *Brevia Placitata* (London, 1951); gw. hefyd Stacey, 'Learning to Plead in Medieval Welsh Law', 109 n. 14.

⁷³ F. W. Maitland a W. P. Baildon (goln), *The Court Baron* (London, 1891); gw. hefyd Charles-Edwards, 'Cynghawsedd: Counting and Pleading', 188, n. 1.

⁷⁴ Charles-Edwards, 'Cynghawsedd: Counting and Pleading', 198: 'It is possible, therefore, that the *cywn* of *AL* XII is precisely this initial plaint, and that *cywn* and *cynghawsedd* are complementary.'

⁷⁵ *Ibid.*, 188.

⁷⁶ *Ibid.*, 193, 198.

⁷⁷ *Ibid.*, 191; Stacey, 'Learning to Plead in Medieval Welsh Law', 110.

⁷⁸ Llawysgrif Peniarth 278, tt. 167–8

vis Mawrth o wevn tymhor gwanwyn o wevn y vlwyddyn hon o wevn trev Vacheurig yn nghymwd Llanerch yn arglwyddiaeth Syr Edmwnd Gray arglwydd y wlad hon ac yn lle dydd ar amser gwneuthur drych a gosawd ar y dywededig Ieuan ai daraw yn ei vraich aswy oni dores groen a chig a gweliau oni lithroedd gwaed hyd lawr a gwaew o ddur a haiarn ei ben ai baladyr o bren on o nerth ei law ai vraich ddeau ai law aswy ai vraich aswy ai chryvder ei gorf am ben hyny . . .⁷⁹

Sonnir hefyd am sut i annilysu cwyn neu hawl. Yn ôl y testun gellid annilysu hawl os: ‘na henwyd pa ryw da, neu pa ryw dir, neu pa dref, na pha feint, na wahaner . . . neu na henwer yr amddiffynwr neu hawlwr erbyn y hen6 bedydd’ a.y.y.b.⁸⁰ Yn amlwg, felly, dilynid confensiwn wrth gyflwyno hawl ac os aed yn erbyn y confensiwn gellid taflu achos allan o’r llys. Rhoddir pwyslais ar ffurf y gŵyn ac efallai mai penllanw hyn oedd datblygiad y mathau o gwynion a argraffwyd yn *Ancient Laws*, XII.

Mewn rhai llawysgrifau o’r bymthegfed ganrif a’r unfed ganrif ar bymtheg, sef LIGC Peniarth 175 (Ā), LIGC Peniarth 36c (‘M’), a Z, ceir casgliadau o gynghawseidd cwbl newydd sy’n annibynnol ar Lyfr Cynghawseidd ac fe’u cyhoeddwyd yn *Ancient Laws*, llyfr IX. Mae’r llyfr cyfraith sy’n cael ei gynrychioli yn llyfr IX yn cynrychioli’r gynghawseidd a ddatblygodd ar ôl y Goncwest. Ymddengys fod H yn cynnwys y darnau cynharaf o’r testun hwn. Tanlinella’r testun hwn hefyd y berthynas rhwng llawysgrifau H a Z. Tueddai *Ancient Laws*, llyfr IX i ganolbwyntio ar ladrad a chyfraith tir, dau bwnc o dragwyddol bwys yng Nghymru ar ôl y Goncwest. Yr oedd dwyn yn drosedd ddifrifol ac yr oedd cyfraith tir ac etifeddiaeth yn rhai o’r meysydd cyfraith a barhâi yn weithredol ar ôl dyddiau Ystatud Rhuddlan.

Mae H, felly, yn cynnwys darnau o Lyfr Cynghawseidd, detholiad o’r gynghawseidd newydd a geir yn *Ancient Laws* llyfr IX, ynghyd â chynghawseidd cwbl unigryw. Efallai fod hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd cynghawseidd a gweinyddiad y gyfraith yn yr Oesoedd Canol diweddar. Yr oedd cynghawseidd yn un agwedd ar y gyfraith Gymreig a oedd yn gwahaniaethu rhyngddi a chyfraith Lloegr. Yr oedd y defnydd o reithgor yn llysoedd Lloegr wedi dylanwadu ar ddatblygiad y pledio Seisnig. Gellir dychmygu y byddai’r gwahaniaethau rhwng y system gyfreithiol Gymreig a’r un Seisnig yn hynod o amlwg mewn ardaloedd lle’r oedd y ddwy gyfraith yn weithredol. Oddi mewn i nifer o arglwyddiaethau’r Mers yr oedd llysoedd Cymreig a llysoedd Seisnig, gyda chyfraith Hywel yn weithredol yn un a chyfraith Lloegr yn y llall. Mae poblogrwydd y testunau cynghawseidd yn awgrymu mai yn yr iaith Gymraeg y cynhelid achosion yn y llysoedd Cymreig.⁸¹

Mae gweddill y testun yn gyfuniad o ddamweiniau, holiadon, a deunydd cwbl newydd. Yr un math o deunydd a gafodd ei ychwanegu at y llawysgrifau cyfraith yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg a’r bymthegfed ganrif.⁸² Gan amlaf yr oedd y deunydd ychwanegol hwn yn ffurfio cynffon i’r prif destun yn llawysgrifau Blegywryd. Mae strwythur testun H yn gwbl wahanol i strwythur cyffredinol y llyfrau cyfraith gan nad yw’n cynnwys copi o un o’r prif ddulliau ac mae’r deunydd ychwanegol yn ganolog i’r testun.

⁷⁹ *Ancient Laws*.XII.xvii

⁸⁰ Llawysgrif Peniarth 278, t. 5.

⁸¹ Gw. J. Goronwy Edwards, ‘The Language of the Law Courts in Wales: Some Historical Queries’, *Cambrian Law Review*, 6 (1975), 7.

⁸² Gw. Christine James, ‘Tradition and Innovation in Some Later Medieval Welsh Lawbooks’, *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 40 (1993), 151. Gw. hefyd Aled Rhys Wiliam, ‘Y Deddfgronau Cymraeg’, *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 8 (1953–4), 97–103.

Yr awdur

Goroessodd deugain o lawysgrifau cyfraith sy'n perthyn i'r cyfnod c.1250–c.1550. Serch hynny, prin iawn yw'r hyn a wyddom am gefndir eu cyfansoddi; sef gan bwy y'u cyfansoddwyd ac ym mhle. Cynhyrchwyd y rhan fwyaf o'r llawysgrifau sy'n dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg a dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg mewn mynachlogydd ond wedi hynny daw gwaith ysgrifwyr lleyg yn fwy amlwg, yn arbennig yn y bymthegfed ganrif.⁸³ O'r holl ysgrifwyr a fu wrthi'n copïo'r llyfrau cyfraith pump yn unig y gellir eu hadnabod wrth eu henwau; sef Gwilym Wasta, Hywel Fychan, 'Davyd Escryvennyd', 'Lewys Yscolheig', a Lewys Glyn Cothi.⁸⁴ Ysgrifwyr lleyg oedd Hywel Fychan a Lewys Glyn Cothi, os nad y tri arall hefyd.⁸⁵

Er na wyddom enw'r gŵr a gyfansoddodd destun *H* gall ei waith awgrymu cryn dipyn amdano. Nid cynnyrch copïydd yw *H* ond cynnyrch golygydd ac awdur a aeth ati i greu testun cyfraith unigryw. Lluniodd fersiwn personol ac unigryw o'r cyfreithiau sy'n tystio i'w allu llenyddol a chyfreithiol. Er bod golwg flêr ac anhrefnus ar y llawysgrif mae'r testun ei hun yn drefnus ac wedi ei ddsbarthu yn ôl gwahanol bynciau cyfreithiol. Mae strwythur penodol i beth o'r deunydd newydd yn y testun, yn enwedig y modd y defnyddir un triawd fel triawd agoriadol a'r trioedd sy'n dilyn yn esbonio gwahanol gymalau'r triawd hwnnw, er enghraifft:

Tri rhyw rwym a wna dyn a'y gilydd: ymrwym, a llyna rwym [cw]byl; a rhwym futnawc; ac ofer rwym.⁸⁶

Dilynir hyn gan 'Tri ymrwym cyfreithiawl y sydd'; 'Tri rhwym futnawl y sydd'; 'Tri ofer rwym yw y teir ofer fechni sydd'.⁸⁷ Mae'r awdur yn ymwybodol o strwythur y testun ac ar brydiau yn cyfarch y 'darllenydd', er enghraifft, 'mal y cefaist fry o'r blaen', 'Ti a glywaist fry yn y dechreu'.⁸⁸ Ar ddiwedd adran arbennig a chyn dechrau adran arall ychwanegodd yr awdur gymalau fel hyn: 'Hyt hynn y dywetpwyd am ledrat absen a'e gospeu; bellach o ledrat cynhyrchawl, a'r dial a berthyn amdanaw'; 'Hyt hynn y dywetpwyd am ledrat absen y bydd gwat heb reith amdanaw. Bellach a[m] ledrat y bydd gwat a rheith amdanaw'.⁸⁹ Ceir penawdau tebyg yn y testunau cyfraith cynharach. Maent hefyd yn adleisio ffurf rhai o'r cymalau yng Ngramadegau'r Penceirddiaid: cf. 'Hyt hynn y dywespwyt am yr egllynon. Dywetter bellach am yr eil geing o brydydaeth'; 'Hyd hyn dywetpwyd am teir keing pryd[yd]yaeth ac a berthyn arnunt . . . Dywetter bellach am trioedd kerdd'.⁹⁰ Tystia hyn i ymwybyddiaeth lythrennog awdur *H* a'r ffaith ei fod yn gweithio o fewn confensiynau llenyddol traddodiadol. Nid casgliad o ddarnau cyfreithiol amherthnasol a di-drefn a geir ganddo ond creadigaeth lenyddol fwiadol. Efallai fod yr awdur yn ceisio creu fersiwn o'r cyfreithiau a oedd yn haws ei ddeall ac yn fwy cofiadwy, ond mae'n bwysig nodi nad testun cyfreithiol ymarferol yw *H*.

⁸³ Gw. Daniel Huws, 'Llyfrau Cymraeg 1250–1400', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 28 (1993–4), 12–14; Huw Pryce, *Native Law and the Church in Medieval Wales* (Oxford, 1993), tt. 17–22; Christine James, 'Ysgrifydd Anhybys: Proffil Personol', yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, 23 (Dinbych, 1997), t. 48.

⁸⁴ Am Gwilym Wasta gw. Morfydd E. Owen a Dafydd Jenkins, 'Gwilym Was Da', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 21 (1979–80), 429–30. Am Hywel Fychan gw. Gifford Charles-Edwards, 'The Scribes of the Red Book of Hergest', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 21 (1979–80), 250–1; gw. hefyd Lloyd ac Owen, *Drych yr Oesoedd Canol*, tt. 223, 228.

⁸⁵ Gw. Pryce, *Native Law and the Church*, t. 20; James, 'Ysgrifydd Anhybys', t. 48.

⁸⁶ Llawysgrif Peniarth 278, t. 90.

⁸⁷ *Ibid.*, tt. 90–1.

⁸⁸ *Ibid.*, tt. 28, 89.

⁸⁹ *Ibid.*, tt. 41, 120.

⁹⁰ *Gramadegau'r Penceirddiaid*, tt. 9, 35.

Nid y deunydd cyfreithiol newydd yn unig sy'n arwyddocaol; mae'r ffordd y bu'r awdur yn trin ei ffynonellau yr un mor ddadlennol. Nid yw'r awdur yn dyfynnu'r llyfrau cyfraith traddodiadol yn eu crynswth ac nid yw'n dilyn yr un drefn â'r llyfrau hynny. Bu iddo drin ei ffynonellau mewn modd hyblyg ac ni welodd yr angen i'w copïo'n llafuraidd. Er bod olion yr un math o aildrefnu mewn testunau cyfraith eraill, yn enwedig yn Llyfr Iorwerth, mae awdur y testun hwn wedi mynd â hynny gam ymhellach gan greu testun unigryw o ran strwythur a chynnwys.⁹¹

Gellir dod i gasgliadau pellach am yr awdur drwy edrych ar sgrif y llawysgrif. Yn aml ychwanegwyd sylwadau pellach yn y gofod gwag rhwng llinellau sydd yn awgrymu mai copi yn llaw'r awdur ei hun yw hwn (ond mae'n debyg bod rhywun arall wedi ychwanegu at rannau o'r testun yn ddiweddarach neu a oedd gan yr awdur gynorthwydd?). Fe all mai'r un awdur a ysgrifennodd y testun gramadegol sydd ar gadw yn llawysgrif D/GW 2082 yng nghasgliad Gwysanau yn Archifdy Sir y Fflint, Penarlâg sy'n dyddio i drydydd chwarter y bedwaredd ganrif ar ddeg.⁹² Er bod perthynas rhwng y testun hwnnw a Gramadegau'r Penceirddiaid, nid yw'n gopi o'r Gramadegau. Mae'n destun addysgol unigryw a difyr sy'n trafod barddoniaeth a sut i'w hysgrifennu. Yn yr Oesoedd Canol yn aml yr oedd beirdd a chyfreithwyr yn perthyn i'r un teuluoedd. Dangosodd Dafydd Jenkins mai Madog Goch Ynad oedd tad Gruffudd ab yr Ynad Goch a ganodd farwnad ingol i Lywelyn ap Gruffudd. Yr oedd Gruffudd ab yr Ynad Goch hefyd yn geifn i Iorwerth ap Madog, y cyfreithiwr hysbys, y priodolwyd Llyfr Iorwerth iddo.⁹³ Teulu arall a oedd yn cynnwys beirdd a chyfreithwyr oedd teulu Meilyr Brydydd ac yn ôl pob tebyg yr oedd ewythr Dafydd ap Gwilym, Llywelyn ap Gwilym, yn hyddysg yng Nghyfraith Hywel.⁹⁴ A cheir rhai enghreifftiau posibl o feirdd-gyfreithwyr, fel Gwalchmai ap Meilir ac Einion ap Gwalchmai.⁹⁵ Mae'n bosibl, felly, y gallai'r un gŵr fod wedi cyfansoddi testun cyfreithiol a thestun barddol.

Mae'n bur debyg mai awdur *H* a fu'n ychwanegu deunydd at lawysgrif cyfraith Peniarth 37 (*U*).⁹⁶ Tebyg iawn yw'r ddwy law. Copiwyd trioedd ar ddiwedd *U* sy'n rheswm arall dros uniaethu'r ddwy law (o gofio bod trioedd yn ganolog i destun *H*). Copiwyd y trioedd canlynol ar ff. 77–8 (mae f. 78^v bellach yn annarllenadwy): 'O dri mod y telir dirwy dreis', 'O dri modd y kyll dadyl dreis y breint mwya', 'Tri ryw amdiffyn syd', 'Tri ffeth nyt reit atep idim y neb ohonunt', 'Tri ryw diebryt y syd', 'Tri modd y k[ae] kyfreith rwng hawlwr ac amdiffynnwr', 'Tri theruyn kyfreithawl syd', 'Teir dadyl a dilyant ev iachav ac ev barnv drwy deturyt gwlat yn erbyn haerlluged', 'Tri modd yd holir tir', 'Tri chamoersgyn syd', 'O dri mod y dospertir dadyl dadanud y rwng etiuedyon nyt amgen trwy vreint anyanawl', 'Tri ryw vreint syd', 'Tri ffriodolder y syd y bob dyn', 'Tri ryw vrawtwyr syd yng Kymry herwyd kyfreith Hywel da'. Codwyd y trioedd hyn o Lyfr Blegywryd ac maent yn dilyn yr un drefn â'r rhan fwyaf o lawysgrifau Blegywryd.⁹⁷ Maent hefyd, ac eithrio'r ddau driawd cyntaf, i'w cael yn *H*. Nid ydynt yn

⁹¹ Mae cyfochredd i gyfansoddi o'r fath mewn testun Eingl-Normanaidd ac mae'r testun hwnnw yn llawn dadansoddi rhethregol, trioedd a nawoedd: gw. D. J. Seipp, 'The Mirror of Justices', yn J. A. Bush a A. Wijffels (gol.), *Learning the Law: Teaching and the Transmission of English Law, 1150–1900* (London, 1999), tt. 85–112.

⁹² Gw. erthygl Ann Parry Owen t. 6 uchod.

⁹³ Dafydd Jenkins (gol.), *Celtic Law Papers: Introductory to Welsh Medieval Law and Government* (Bruxelles, 1973), t. 128; idem, 'Yr Ynad Coch', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 22 (1966–8), 345–6.

⁹⁴ Gw. Morfydd E. Owen, 'Gwŷr Dysg yr Oesoedd Canol a'u Dulliau Rhyddiaith', yn J. E. Caerwyn Williams (gol.), *Ysgrifau Beirniadol*, 17 (Dinbych, 1990), tt. 60–1.

⁹⁵ D. Stephenson, *The Governance of Gwynedd* (Cardiff, 1984), t. 14.

⁹⁶ Gw. uchod, t. 36.

⁹⁷ Mae trefn y trioedd ychydig yn wahanol yn llawysgrif LIGC Peniarth 36A (*O*), llawysgrif Caer-grawnt, Coleg y Drindod O.vii.I (*Tr*) a *Q*.

dilyn yr un drefn yn *H* ac maent wedi eu dyfynnu mewn gwahanol rannau o'r testun. Gwahanol iawn yw geiriad y trioedd yn *H* ar brydiau i'r hyn sydd yn *U* ac yn llawysgrifau Blegywryd. Serch hynny, mae rhai geiriau sy'n digwydd yn nhrioedd *U* ac *H* nad ydynt yn ymddangos yn unrhyw un o llawysgrifau Blegywryd. Fe all fod y trioedd yn *U* a *H* yn rhannu'r un gynsail. Copiwyd y gynsail honno air am air yn *U* tra addaswyd ac ychwanegwyd at y gynsail yn *H*. Yn un o'r trioedd enwir Aberffraw o flaen Dinefwr yn *U* a *H* tra enwir Dinefwr o flaen Aberffraw yn ddiethriad yn llawysgrifau Blegywryd:

Tri ryw vrawtwyr syd yng Kymry herwyd kyfreith Hywel da: brawtwr llys pennadur herwyd swyd, gyt a brenin Aberffraw nev Dinewr . . .⁹⁸

Tri rhyw frawdwr y sydd yng Cymry herwydd cyfreith Hywel: brawdwr llys pennadur herwydd swydd, gyt a brenin Aberffraw neu Ddinefwr . . .⁹⁹

Tri ryw vrawtwyr yssyd yg Kymry herwyd kyfreith Hywel Da: brawdwr llys peunydyawl herwyd swyd, gyt a brenhin Dinefwr neu Aberffraw yn wastat . . .¹⁰⁰

Rhoddir Aberffraw yn gyntaf hefyd yn y fersiynau o'r triawd sydd i'w cael yn llawysgrif *Z* (f. 85^r) ac yn llawysgrif '*M*' (t. 86). Mae'n debyg fod llawysgrifau Blegywryd yn deillio o Ddeheubarth Cymru ond efallai fod fersiwn o Blegywryd yn cylchredeg o amgylch y gogledd.

Yr oedd nifer o destunau cyfreithiol ac addysgol ar gael i awdur *H*. Awgryma hyn ei fod yn gasglwr llawysgrifau. Gwyddom am nifer o gasglwyr a chyfansoddwyr llyfrau'r cyfnod hwn a oedd yn swyddogion y Goron. Copiwyd fersiwn o Frut Sieffre o Fynwy yn y bymthegfed ganrif gan Ddafydd Glais, un o swyddogion brenhinol tref Aberystwyth a chafwyd achos cyfreithiol yn 1331 ynghylch llyfr hanes Ithel ab Einion, a oedd yn rhaglaw arglwyddiaeth Dyffryn Clwyd.¹⁰¹ Mae'n bosibl i'r bardd Gruffudd Gryg, a oedd hefyd yn rhingyll ym Môn, gopïo rhai o'r cerddi diweddarach yn llawysgrif Hendregadredd.¹⁰² Yr oedd Rhydderch ab Ieuan Llwyd yn ddsbarthwr yng Ngheredigion ac yn gasglwr llawysgrifau. Yr oedd Siôn Edward (m.1498) yn dderbynydd Swydd y Waun ac yn noddwr llawysgrifau (fel Mostyn 88)¹⁰³ a hefyd yn gopïydd (fel llawysgrifau LIGC 423D a BL Add. 46846).¹⁰⁴ Disgynnydd i Siôn Edward oedd John Edwards o'r Waun (m.1625) a bedyddiwyd Peniarth 29 yn Llyfr Du o'r Waun gan Robert Vaughan, Hengwrt, gan fod y llawysgrif ar un adeg yn eiddo iddo.¹⁰⁵ Os oedd y Llyfr Du ym meddiant teulu Edwards y Waun mae'n bur debyg fod *H* yn eu meddiant hefyd, o gymryd bod y ddwy llawysgrif wedi eu rhwymo ynghyd cyn cyrraedd John Jones, Gellilyfdy. Ai aelod o deulu blaenllaw fel hyn oedd awdur *H*? Wrth drafod awduron posibl Gramadeg Gwysanau, awgryma Ann Parry Owen y dylid ystyried un o ddau ŵr a enwir Siôn/Ieuan Trefor o linach Treforiaid Nanheudwy, a ddyrchafwyd yn esgobion yn Llanelwy yn y bedwaredd ganrif ar ddeg.¹⁰⁶

⁹⁸ Llawysgrif Peniarth 37, t. 155.

⁹⁹ Llawysgrif Peniarth 278, t. 53.

¹⁰⁰ *Llyfr Blegywryd*, tt. 98/28–99/6.

¹⁰¹ Llinos Beverley Smith, 'Inkhorn and Spectacles: the Impact of Literacy in Late Medieval Wales', yn Huw Pryce (gol.), *Literacy in Medieval Celtic Societies* (Cambridge, 1998), t. 210.

¹⁰² Huws, 'Llawysgrif Hendregadredd,' 18; a gw. uchod, t. 36.

¹⁰³ Gw. Morfydd E. Owen, 'Prolegomena i Astudiaeth Lawn o Lsgr. NLW 3026, Mostyn 88 a'i Harwyddocâd', yn Iestyn Daniel et al. (goln), *Cyfoeth y Testun: Ysgrifau ar Lenyddiaeth Gymraeg yr Oesoedd Canol* (Caerdydd, 2003), tt. 349–84.

¹⁰⁴ Llinos Beverley Smith, 'The Grammar and Commonplace Books of John Edwards of Chirk', *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 34 (1987), 174–84.

¹⁰⁵ Dafydd Jenkins, 'The Black Book of Chirk: a Note', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 15 (1967–8), 104.

¹⁰⁶ Gw. Ann Parry Owen, t. 16 uchod, er ei bod hi'n ffafrio Ithel ap Robert o Goedymynydd fel awdur posibl Gramadeg Gwysanau.

Gellir dweud â pheth sicrwydd fod awdur *H* wedi arfer ysgrifennu'r llaw ddogfennol a dichon ei fod wedi ei defnyddio at ddibenion gweinyddiad y llysoedd, yr awdurdodau eglwysig, neu hyd yn oed weinyddiad ystadau'r uchelwyr; ond mae cynnwys y llawysgrif yn tueddu i awgrymu cysylltiad â'r llysoedd. Dichon mai gŵr uchel ei statws a oedd wedi derbyn peth hyfforddiant yn y gyfraith yn ifanc oedd awdur *H*, rhywun a oedd hefyd, o bosibl, yn ymddiddori yn y traddodiad barddol. Ceir enghreifftiau yn y testun sy'n awgrymu bod yr awdur wedi derbyn rhywfaint o addysg Ladinaidd. Defnyddir ychydig o eiriau neu dermau Lladin, er enghraifft, *processos* sy'n ffurf ar y Lladin *processus*, *symonia* a ddaw, mae'n debyg, o'r Lladin *simonia*, a chyfeirir at weddi'r Arglwydd fel *verbum Dei*. Ceir rhai cyfeiriadau yn y testun sy'n awgrymu bod awdur *H* yn gyfarwydd â gweithiau clasurol, er enghraifft:

cans Aristotles a ddyweit, may y cymherfedd a ddylir y ethol: nyt iawn y neb yn ceissiw y neges digyaw y neb y bo y neges wrthaw, na'e frawdwr; ny bydd lawen y gwrandawr wrth hynn a ddywetter wrthaw o'e anfordd: ac am hynny y dyweit Selyf: 'Na ddyweit ymadrodd, onyth glywir . . .'¹⁰⁷

Nid oes unrhyw dueddiadau eglwysig amlwg yn y testun sy'n awgrymu nad oedd yr awdur yn glerigwr, ond dichon iddo gael rhywfaint o addysg eglwysig. Nid oedd yn anghyffredin i leygwyr fod mewn cysylltiad agos â'r eglwysi neu'r mynachdai, a chyflogid lleygwyr fel clerod mewn mynachdai o'r drydedd ganrif ar ddeg ymlaen.¹⁰⁸ Dichon, felly, ei bod hi'n deg awgrymu mai lleygwr diwylliedig oedd awdur *H* ac iddo gael rhywfaint o addysg eglwysig neu fynachaid yn ystod ei oes. Awgryma Ann Parry Owen fod awdur Gramadeg Gwysanau yn gyfarwydd â rhai o lawysgrifau abaty Glyn-y-groes yn Llangollen, a all awgrymu ei fod wedi derbyn peth o'i addysg yno.¹⁰⁹

Soniwyd eisoes am berthynas *H* ag *Ancient Laws*, llyfr IX sydd wedi ei seilio ar lawysgrifau *Ā*, '*M*', a *Z*. Gellir, o bosibl, gysylltu *Ā* â'r gogledd;¹¹⁰ mae'n ymddangos fod cysylltiad rhwng '*M*' a chwmwd Isaled yn Ninbych;¹¹¹ awgrymodd Christine James i William Salesbury ddyfynnu cysnail *Z* yn *Ban wedy i dynny air yngair alla[n] o hen gyfreith Howel da* (1550), sy'n awgrymu bod cysnail *Z* yn Nyffryn Clwyd erbyn y cyfnod hwnnw os nad yn gynharach.¹¹² Gellir awgrymu, felly, fod y llawysgrifau hyn yn deillio o arglwyddiaethau Dyffryn Clwyd a Dinbych, neu o leiaf eu bod wedi eu lleoli yno ar un adeg. Ni chafodd Cyfraith Hywel ei diddymu'n llwyr ar ôl 1282 a pharhâi peth o'r gyfraith gynhenid i gael ei gweithredu yn y dywysogaeth hyd yn oed ar ôl Ystatud Rhuddlan; byddai modd i'r gyfraith ffynnu ochr yn ochr â chyfraith Lloegr yn yr arglwyddiaethau ac i raddau yn y Dywysogaeth. Yr oedd arglwyddiaeth Dinbych yn cyflogi ynadon a oedd yn arbenigwyr ar gyfraith Hywel tan ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg.¹¹³ Yn y de cyflogwyd dosbarthwyr i adolygu dyfarniadau'r brawdwr o

¹⁰⁷ Llawysgrif Peniarth 278, tt. 79–80.

¹⁰⁸ Cf. J. R. H. Moorman, *Church Life in England in the Thirteenth Century* (Cambridge, 1945), t. 360.

¹⁰⁹ Gw. Ann Parry Owen, t. 14 uchod.

¹¹⁰ Ar y clawr ysgrifennodd Thomas Wiliems o DreFriw: 'D Guilielmi Morgani ex dono Tho: Guilielmi.' Cafodd William Morgan ei gysegru yn esgob Llandaf yn 1595 ac yn esgob Llanelwy yn 1601.

¹¹¹ Mae'r nodyn hwn yn digwydd yn '*M*': 'Meichie a vo dros arall ar [hed]wch a thori o'r dyn yr hedwch nid attep y meichie o chair dall y dyn a'i tores. Onid rraid ir meichie tallv dros doriat yr heddwch oni all y dyn y dalv. A hono y sy varn Tudor ap Jeuan goch anno regni Henrici sexti septimo in curia de Issalet' (Peniarth 36c, f. 74). Efallai iddo gael ei godi allan o frawdlyfr rhywun yn ardal Isaled sy'n awgrymu i'r llawysgrif gael ei defnyddio (os nad ei chyfansoddi) yn arglwyddiaeth Dinbych.

¹¹² Gw. Christine James, 'Ban Wedy i Dynny: Medieval Welsh Law and Early Protestant Propaganda', *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 27 (1994), 78–81.

¹¹³ J. Beverley Smith, 'Crown and Community in the Principality of North Wales in the Reign of Henry Tudor', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 3 (1966), 170.

frait tir. Yng ngeiriau R. R. Davies: 'the attitude of most Marcher lords was one of profiteering tolerance'.¹¹⁴ Yr oedd parhad cyfraith Hywel yn ffordd o euro pocedi'r arglwyddi: byddent yn derbyn cyllid am gamfarn, amobr, ebediw, a gwall gair. Mae dogfennau llysoedd y Mers yn frith o gyfeiriadau at gyfraith Hywel. Ceir y dystiolaeth lawnaf iddi sydd wedi goroesi yn rholiau llys Dyffryn Clwyd; ond cofnodwyd rhai achosion o arglwyddiaeth Clun yn y bymthegfed ganrif (sef swydd Amwythig heddiw), a chafwyd achosion yng Nghydhweli, Cao a Dinmael yn nechrau'r unfed ganrif ar bymtheg.¹¹⁵ Mae hyn yn awgrymu bod gwerth ymarferol i'r testunau cyfraith yn y Mers. Diweddodd nifer o'r llawysgrifau cyfraith eu hoes yn arglwyddiaethau'r Mers.¹¹⁶ Tystia hyn i'r diddordeb yn y gyfraith gynhenid yn yr ardaloedd hynny. Mae'n anodd peidio ag awgrymu mai yn y Mers y cyfansoddwyd *H* hefyd.

Ar ymyl un o'r tudalennau yn llawysgrif *U* ysgrifennwyd yr enw Gronwy ap Llywelyn ap H[?oll'] (f. 67^v). Ai dyma enw'r gŵr a fu'n gyfrifol am yr holl *marginalia* ac am gopio'r trioedd ar ddiwedd llawysgrif *U*? Ai dyma enw awdur *H*?¹¹⁷ Yn rholiau llys Dyffryn Clwyd enwir un Gronw ap Llywelyn fel rhingyll cwmwd Colion yn 1361. Casglodd ebediw (tâl marwolaeth) o 7s 6d ar farwolaeth Ithel ap Madog Ddu.¹¹⁸ Yn nhestunau Cyfraith Hywel yr oedd y rhingyll yn un o swyddogion ymylol y llys a rhestrir ef ymysg y swyddogion arfer a defod yn nhestun Llyfr Iorwerth¹¹⁹ a'i alw yn 'gwas y kyghellawr' yn nhestunau'r de, sy'n awgrymu ymwneud ag ysgrifennu a chofnodion.¹²⁰ Mewn triawd yn *H* rhestrir y rhingyll fel un o 'dri arffedoc croes' (tri cheidwad croes). Yr oedd rhoi croes ar dir yn ffordd o arwyddo bod achos cyfreithiol arfaethedig yn ei gylch. Yn aml defnyddid croes i ddynodi ffiniau a dichon ei fod yn arferiad a ddechreuodd ar dir eglwysig.¹²¹ Ni cheir cyfeiriad uniongyrchol at y rhingyll yn rhoi croes yn y testunau cyfraith eraill sydd yn awgrymu bod awdur y testun wedi ychwanegu hyn o'i wybodaeth ei hun. Yng nghofnodion llys cwmwd Ardudwy yn 1325 cyfeirir at achos lle'r oedd y rhingyll wedi estyn croes gwahardd.¹²² Mewn achos yn Nyffryn Clwyd yn 1352 rhoddodd y rhingyll groes i Gruffydd ab Ithel i'w defnyddio yn erbyn Ieuan ap Madog.¹²³ Rhestrir nifer o achosion lle y defnyddiwyd croesau yn rholiau llys Dyffryn Clwyd sy'n dangos bod y defnydd o groesau wedi parhau yn arglwyddiaethau'r Mers tan yr Oesoedd Canol diweddar. Mae'r adran hwyaf ar groesau yn y llawysgrifau cyfraith i'w chael yn *H*. Yr oedd gwysio a chasglu rhent a dyledion hefyd yn rhan bwysig o swyddogaeth y rhingyll. Yn y gogledd-ddwyrain yn y bedwaredd ganrif ar ddeg y rhingyll oedd un o brif swyddogion Cymreig y

¹¹⁴ R. R. Davies, *Lordship and Society in the March of Wales, 1282–1400* (Oxford, 1978), t. 162.

¹¹⁵ Am arglwyddiaeth Clun, gw. idem, 'The Survival of the Bloodfeud in Medieval Wales', *History*, 54 (1969), 344–5, *et passim*; am yr achos yn Cao gw. T. Jones Pierce, 'The Law of Wales – the Last Phase', yn J. Beverley Smith (gol.) *Medieval Welsh Society: Selected Essays by T. Jones Pierce* (Cardiff, 1972), tt. 370, 381, 387; ac am Dinmael gw. E. D. Jones, 'Rhannu Tir Rhys ab Elise', *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 3 (1943–4), 23–8.

¹¹⁶ Mae dystiolaeth i lawysgrif BL Cotton Caligula A.III (C) fod ym meddiant Richard Longford. Yr oedd llawysgrif LIGC Peniarth 34 (F) wedi ei lleoli ym Maelor yn arglwyddiaeth Brwnffild. Mae'n debyg i '*M*' a Lladin E gael eu cyfansoddi yn arglwyddiaeth Dinbych.

¹¹⁷ Er bod ffurf yr *a* yn yr enw Gronwy ap Llywelyn ap H[oll'] o bosibl yn amrywio ychydig o'r hyn sydd i'w gael yn arferol yn *H*.

¹¹⁸ *Dyffryn Clwyd Court Rolls Database*, Llan 3/1723.

¹¹⁹ *Llyfr Iorwerth*, §30/6

¹²⁰ H. D. Emanuel (gol.), *The Latin Texts of the Welsh Laws* (Cardiff, 1967), t. 373.

¹²¹ Sara Elin Roberts, 'Legal Practice in Fifteenth-century Brycheiniog', *Studia Celtica*, 35 (2001), 312.

¹²² Stephenson, *The Governance of Gwynedd*, t. 44; E. A. Lewis, 'The Proceedings of the Small Hundred Court of the Commote of Ardudwy in the County of Merioneth from 8 October 1325 to 18 September 1326', *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, 4 (1927–9), 162.

¹²³ *Dyffryn Clwyd Court Rolls Database*, Llan 2/2741; Roberts, 'Legal Practice in Fifteenth-century Brycheiniog', 312–13.

cwmwd a byddai wedi bod yn gyfarwydd â'r cyfreithiau Cymreig.¹²⁴ Serch hynny, gan fod yr enw Gronw ap Llywelyn yn enw mor gyffredin ni ellir cynnig yn bendant mai dyma awdur *H* ond mae gennym le i gredu y byddai wedi bod yn wŕ o gefndir tebyg.

Mae ysgrifen ac orgraff *H* yn awgrymu bod y llawysgrif yn perthyn i ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg.¹²⁵ Dadleuais yn y gorffennol fod natur y testun yn tueddu i awgrymu bod *H* yn perthyn i ddechrau'r bymthegfed ganrif.¹²⁶ Ceir cyfatebiaeth i rai o'r trioedd mewn llawysgrifau diweddar megis *Q*, *Tim*, *K*, ac *S*; mae'r llawysgrifau hyn yn deillio o ganol y bymthegfed ganrif. Mae rhannau o *H* yn perthyn yn agos i gynffon *Z* ac mae'n debyg na ddylid dyddio cynsail y llawysgrif honno i gyfnod cyn 1400.¹²⁷ Perthyn y llawysgrifau sy'n cynnwys copiâu o *Ancient Laws*, IX i'r bymthegfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg. Serch hynny, mae'n bosibl fod y testunau hyn yn tynnu ar ffynonellau o gyfnod cynharach. Os yw *H* yn cynnwys y copi cynharaf o'r testunau hyn mae hi'n llawysgrif llawer pwysicach nag a ystyriwyd yn y gorffennol.

Cynigir, felly, i lawysgrif *H* gael ei chyfansoddi gan weinyddwr, a oedd o bosibl â diddordeb yn y traddodiad barddol, yn un o arglwyddiaethau'r gogledd-ddwyrain yn ail hanner y bedwaredd ganrif ar ddeg.

Aberystwyth

GWENNO ANGHARAD ELIAS

¹²⁴ P. Vinogradoff a F. Morgan (goln), *The Survey of the Honour of Denbigh* (London, 1914), tt. lxxxii–lxxxiii; G. P. Jones (gol.), *The Extent of Chirkland (1391–1393)* (Liverpool, 1933), xxx–xxxi.

¹²⁵ Huws, *Medieval Welsh Manuscripts*, tt. 46, 60.

¹²⁶ Elias, 'Golygiad', t. 106.

¹²⁷ *The Welsh King and His Court*, t. 427 n. 16.